

**COFNODION CYFARFOD O'R BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD YN  
SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MAWRTH, 9 GORFFENNAF  
2019**

**AELODAU**

Y Cynghorydd Mark Pritchard, Cadeirydd  
Y Cynghorydd Hugh Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Andrew Atkinson	Y Cynghorydd	David J Griffiths
"	William Baldwin	"	* David Kelly
"	David A Bithell	"	Joan Lowe
"	Terry Evans	"	Phil Wynn

\*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Brian Cameron, Dana Davies, T Alan Edwards, Frank Hemmings, R Alun Jenkins, Adrienne Jeorrett, Marc Jones, M G Morris, Graham Rogers, Debbie Wallace a Robert Walsh

**10 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd David Kelly.

**11 CADARNHAU COFNODION**

**PENDERFYNWYD – cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2019 fel cofnod cywir.**

**12 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI**

Atgoffwyd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan Baragraff 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem 5 ar y Rhaglen – Y wybodaeth ddiweddaraf ar Brif Gynllun Coridor Ffordd yr Wyddgrug

Y Cynghorwyr David A Bithell a Brian Cameron – Personol – Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wreccsam. Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny, yn achos Aelod y Bwrdd Gweithredol.

Eitem Rhif 13 ar y Rhaglen – Cynllun Ariannu Ysgolion CBSW: Diweddariad ar y Diffyg Trwyddedig. Y Cynghorydd Geoff Lowe – Personol – Llywodraethwr Ysgol. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod gan hawlio eithriad dan Baragraff 12(2) o God Ymddygiad yr Aelodau, a chymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny.

**13 CWESTIYNAU**

Yn unol ag Adran 5.8.16 o Gyfansoddiad y Cyngor, cyflwynodd pum aelod o'r cyhoedd gwestiwn yn ymwneud â thanwyddau ffosil.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Lleoedd – Amgylchedd a Chludiant i'r cwestiwn yn unol â hynny.

**14 AMRYWIAETH I DREFN YR AGENDA**

**CYTUNWYD y dylid dwyn ymlaen – Eitem 9 ar y Rhaglen - Cynnig i Ymgynghori ar Gynyddu nifer lleoedd disgyblion Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas - Adroddiad Gwrthwynebiadau, a'u cymryd ar y pryd hwn.**

**15 CYNNIG I YMGYNGHORI AR Y CYNNYDD MEWN LLEOEDD DISGYBLION YN YSGOL GYNRADD LÔN BARCAS - ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Pobl – Addysg adroddiad (COEEI/14/19) i roi canlyniadau'r cyfnod hysbysiad statudol diweddar i'r Aelodau yn ymwneud â'r cynnig i gynyddu nifer lleoedd disgyblion Ysgol Gynradd Lôn Barcas.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad, ac atgoffwyd Aelodau y dylid canolbwyntio ar agweddau addysg y cynnig ac y byddai'n delio â materion datblygiad drwy'r broses gynllunio. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol yn amlinellu'r meini prawf y bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried wrth wneud penderfyniadau yn ymwneud â chynigion ynghylch ysgol benodol. Cytunwyd y byddai nodyn briffio ar y Cod yn cael ei gyhoeddi i Aelodau i ddarparu rhywfaint o eglurhad pellach.

**PENDERFYNWYD –**

**(i) Nodi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol, a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiad (a fanylir arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad COEEI/14/19).**

**(ii) Y dylid awdurdodi'r Swyddogion i fynd ymlaen â'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd:**

**Creu estyniad i'r adeilad presennol er mwyn gallu derbyn 105 o ddisgyblion ychwanegol (15 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn). Byddai cynnydd y flwyddyn gyntaf ym mis Medi 2020 ar gyfer dosbarthiadau Meithrin (15 lle) a Derbyn (15 lle) yn unig.**

**Bydd nifer y derbyniadau blynyddol yn cynyddu o 15 lle (o 30 i 45) ar gyfer lleoedd meithrin a derbyn o 2020 ymlaen, a bydd y dosbarthiadau hyn yn bwydo i weddill yr ysgol nes y cyrhaeddir yr uchafswm o ran lleoedd o 315 (a 45 lle meithrin).**

**Rhesymau dros y penderfyniadau**

**(i) Mae galw parhaus am leoedd yng nghanol tref Wrecsam. Er ein bod yn bodloni'r galw ar hyn o bryd, rhagwelir twf pellach.**

**(ii) Ar gyfer y cylch derbyn presennol yn 2018-2019 methodd yr Adran**

**Addysg, fel yr Awdurdod Derbyn, â bodloni'r galw yn lleol am leoedd yng nghanol y dref, a bu'n rhaid gwrthod disgyblion oedd wedi dewis Ysgol Gynradd Gymunedol Lôn Barcas.**

- (iii) Er mwyn cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru i leihau meintiau dosbarthiadau cynradd eto, mae'n rhaid darparu mwy o leoedd yn ffisegol, yn enwedig felly yng nghanol y dref.**
- (iii) Mae cyfle wedi codi inni fodloni'r galw ychwanegol drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru nad yw'n rhan o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Llywodraeth Cymru fyddai'n ariannu'r prosiect hwn 100%.**

**16 CADEIRYDD LLYWYDDOL**

Gadawodd y Cadeirydd y Gadair a llywyddodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Hugh Jones, dros yr eitemau nesaf ar y Rhaglen, er mwyn galluogi'r Cadeirydd i gyflwyno Eitemau 5 a 6 ar y Rhaglen yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Arweiniol Trefniadaeth - Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu.

(Y Cynghorydd Hugh Jones yn Cadeirio)

**17 DIWEDDIARIAD AR BRIF GYNLLUN CORIDOR FFORDD YR WYDDGRUG**

*(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 12 uchod)*

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (COHE/28/19) i godi ymwybyddiaeth am astudiaeth Prif Gynllun Coridor Ffordd yr Wyddgrug drwy Bartneriaeth Porth Wrecsam.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) Dylid nodi dyhead yr Astudiaeth Prif Gynllun fel y caiff ei ddisgrifio.**
- (ii) Dylai'r Cyngor barhau i weithio gyda'r Bartneriaeth a budd-ddeiliaid allweddol eraill (gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru ac Chlwb Pêl-droed Wrecsam) i fwrw ymlaen i ddatblygu'r prif gynllun.**
- (iii) Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Tai a'r Economi mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, Aelod Arweiniol yr Economi - Datblygu Economaidd ac Adfywio a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh i sicrhau adnoddau pellach, lle bo angen, i gynorthwyo a gwella canlyniadau'r prif gynllun.**
- (iv) Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Tai a'r Economi i ymgysylltu â budd-ddeiliaid ar y prif gynllun sy'n cael ei ddatblygu.**

**Rheswm dros y penderfyniad**

Cydnabod a chefnogi rhan y Cyngor gyda Phartneriaeth Porth Wrecsam a chefnogaeth y Cyngor i barhau i weithio gyda budd-ddeiliaid allweddol i fwrw ymlaen â'r weledigaeth ar gyfer Porth Wrecsam.

18 **GWNEUD DEFNYDD UNWAITH ETO O DAI GWAG HIRDYMOR AR DRAWS BWRDEISTREF SIROL WRECSAM DRWY GYNNIG CYMORTH A DRWY GAMAU GORFODI**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (COHE/30/19) yn gofyn i Aelodau gytuno i'r broses ar gyfer dynodi eiddo gwag ac am flaenoriaethu camau gorfodi i fynd i'r afael ag eiddo gwag hirdymor problemus yn ôl y gofyn yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) Cytuno ar y maen prawf a'r matrices sgorio ar gyfer blaenoriaethu eiddo o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer ymyrraeth, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 adroddiad COHE/30/19. Ac ym mhob achos, dylid hysbysu'r Aelodau Arweiniol Cyllid a Thai am ganlyniad gweithrediad y meini prawf.
- (ii) Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Tai a'r Economi i sefydlu Grŵp Gorfodi Eiddo Gwag dan arweiniad swyddogion i ystyried a chytuno ar y dull gweithredu priodol yn unol â'r Matrics Sgorio (Atodiad 2) a deddfwriaeth briodol.
- (iii) Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Tai a'r Economi i fwrw ymlaen ag ymyriadau fel y nodwyd drwy weithredu meini prawf sgorio a'i gytuno gan y Grŵp Gorfodaeth Eiddo.

**Rheswm dros y penderfyniadau**

I alluogi defnydd i gael ei wneud unwaith eto o eiddo a thir gwag hirdymor problemus fel rhan o adfywiad hirdymor y Fwrdeistref Sirol lle mae pob opsiwn arall wedi cael eu harfer.

(Y Cyngorydd Mark Pritchard yn Cadeirio)

19 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWYR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018/19**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bobl - Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Aelod Arweiniol dros Bobl - Gwasanaethau Plant, adroddiad (COSC/11/19) i roi fersiwn drafft Adroddiad Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19 i'r Aelodau, gan gynnwys y blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019/20.

Wrth ystyried yr adroddiad, cafwyd trafodaeth a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Pryder ynghylch nifer y plant dan fygythiad sy'n aros am asesiad.

- Ceisiadau am ragor o wybodaeth yn dilyn cau cartrefi preswyl a'r angen posibl i symud i leoliadau tu allan i'r sir.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch recriwtio i'r sector gofal, yn arbennig gofal cartref.  
Dywedodd Swyddogion fod recriwtio i'r swyddi hyn yn broblem fawr yn genedlaethol, ac er bod gwaith yn cael ei wneud i annog staff i aros yn eu swyddi, roedd lefelau cadw yn dda ar y cyfan.

**PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad y Cyfarwyddwr ar gyfer 2018/19 a chymeradwyo'r blaenoriaethau gwella ar gyfer 2019/20 i gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.**

**Rheswm dros y penderfyniadau**

**Bwriad Adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr yw darparu darlun clir o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Wrecsam. Bydd ei gyhoeddi yn sicrhau bod Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan reoliadau Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd hefyd yn galluogi'r Rheoleiddwyr i ddefnyddio'r adroddiad i'w cynorthwyo wrth bennu'r rhaglen archwilio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Wrecsam.**

20

**AMGUEDDFA BÊL-DROED CYMRU**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bobl – Cymunedau, Partneriaethau, Gwarchod y Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol adroddiad (COHE/27/19) i roi gwybod i Aelodau am ddatganiad Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru ar 10 Mai 2019 a'r penderfyniad i fuddsoddi yn yr amgueddfa leol yn Wrecsam i gyflawni eu nod o greu amgueddfa ac atyniad i ymwelwyr yn ymwneud â phêl-droed yn Wrecsam, ac i Aelodau roi awdurdod i Swyddogion i ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i fynd ymlaen â'r cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) **Awdurdodi'r Swyddogion i ddechrau trafodaethau ynghylch sefydlu Amgueddfa Bêl-droed i'w lleoli yn Amgueddfa Wrecsam gyda Llywodraeth Cymru, a bwrw ymlaen â chynllun dylunio i safon RIBA Cam 3.**
- (ii) **Dylid awdurdodi Swyddogion i wneud cais i Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri am gefnogaeth ar gyfer RIBA Cam 3.**
- (iii) **Ymdrin â'r mater dan sylw fel eitem fusnes frys yn unol ag Adran 5 (Rheol 5.8.10(e)) o Gyfansoddiad y Cyngor.**

**Rhesymau dros y penderfyniadau**

- (i) **Byddai datblygu Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn Amgueddfa Wrecsam yn golygu y byddai gan dreftadaeth bêl-droed Cymru gartref parhaol am y tro cyntaf mewn tref sy'n iawn i ystyried ei hun yn gartref ysbrydol i**

bêl-droed yng Nghymru.

- (ii) Byddai'r datblygiad yn denu nifer sylweddol yn fwy o ymwelwyr i ochr orllewinol canol y dref a byddai, felly, yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi leol.
- (iii) Byddai'r datblygiad yn diogelu dyfodol Amgueddfa Wrecsam a byddai'n golygu ardaloedd newydd a mwy o faint i ddehongli treftadaeth Wrecsam a byddai'n darparu gwasanaeth gyda siop newydd a hygyrch yr amgueddfa ar gyfer ei gasgliadau milwrol, pêl-droed a chyffredinol.
- (iv) Caniatáu swyddogion i fwrw ymlaen â'r datblygiad heb oedi diangen.

21 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** - Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod, tra bod yr eitem a ganlyn yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

22 **CYNLLUN ARIANNU YSGOLION CBSW: CAIS DIFFYG TRWYDDEDIG**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bobl – Addysg a'r Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad ar y cyd (COEEI/16/19) yn gofyn i Aelodau ystyried cais gan Ysgol Gynradd i osod ei gyllideb ddirprwyedig flynyddol ar lefel diffyg.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) Dylid herio'r Cadeirydd a'r Pennaeth ar gynllun adfer yr Ysgol ac ystyried a ddylid cymeradwyo'r cais diffyg trwyddedig a chynllun adfer y gyllideb ar gyfer yr ysgol.
- (ii) Dylid dod ag adroddiad pellach i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020 ar weithrediad y cynllun adfer diffyg trwyddedig.

Rheswm dros y penderfyniad

Cydymffurfio a Rheoliadau Adran 48 Cynllun Ariannu Ysgolion yr Awdurdod.

23 **CYNLLUN ARIANNU YSGOLION CBSW: DIWEDDARIAD DIFFYG TRWYDDEDIG**

*(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 12 uchod)*

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Bobl – Addysg a'r Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad ar y cyd (COEEI/15/19) yn gofyn i Aelodau ystyried diweddariad ar y sefyllfa ynghylch y cynllun adennill diffyg trwyddedig ar gyfer ysgol a chymeradwyo cais am ddiffyg

trwyddedig o £595,061 ar gyfer yr ysgol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.

**PENDERFYNWYD –**

- (i) Dylid herio Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth ar gynllun adfer cyllideb yr Ysgol.**
- (ii) Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar a'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh i ganiatáu'r Ysgol i ymestyn ei gyfnod diffyg trwyddedig tu hwnt i'r tymor adfer arferol o dair blynedd, fel y caniateir dan y Cynllun Diffyg Trwyddedig. Bydd yr estyniad yn gorchymyn yr ysgol i gyflwyno cynllun adfer diwygiedig sy'n dangos sut y bydd yn dychwelyd i safle cyllideb gytbwys erbyn blwyddyn ariannol 2024–2025.**
- (iii) Dylid awdurdodi'r Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar i gyhoeddi Hysbysiad Pryder ffurfiol i'r ysgol os na fydd y cynllun adfer cyllideb diwygiedig yn cael ei ddarparu erbyn 30 Medi 2019.**
- (iv) Dylid dod ag adroddiad pellach i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 ar y cynllun adfer diffyg trwyddedig.**

**Rheswm dros y penderfyniadau**

- (i) Cydymffurfio â Rheoliadau Adran 48 Cynllun Ariannu Ysgolion yr Awdurdod a'r cynllun diffyg trwyddedig.**
- (ii) Mae amserlen adfer cyllideb o bum mlynedd yn gyfnod mwy realistig yn yr achos hwn.**
- (ii) Cyhoeddi Hysbysiad Pryder, lle bo angen, yw'r lefel nesaf o ymyrraeth a ganiateir yng Nghynllun diffyg a Drwyddedir yr Awdurdod**

Y Cynghorydd Mark Pritchard  
Cadeirydd